

# Llenwi'r bwlch: Trwsio Deintyddiaeth y GIG yng Nghymru



## **Llenwi'r bwlch: Trwsio Deintyddiaeth y GIG yng Nghymru**

### **Cyflwyniad**

Mae deintyddiaeth y GIG mewn stad o argyfwng. Mewn sawl rhan o'r wlad, mae'n amhosib cael apwyntiad gyda deintydd y GIG. Mewn rhannau eraill, rhaid aros yn hir. Rydym yn clywed adroddiadau brawychus fod pobl yn teimlo mor anobeithiol wrth geisio cael gofal, eu bod yn rhoi triniaethau deintyddol iddyn nhw eu hunain. Ac mae plant yn arbennig yn cael cam, gan orfod aros yn hir am ofal, dioddef straen a tharfu ar eu haddysg.

### **Byddwn yn:**

- Buddsoddi yn neintyddiaeth y GIG, fel nad oes rhaid i neb deithio milltiroedd i dalu am ofal preifat.
- Lleihau amseroedd aros a mynd i'r afael â phrinder staff drwy ganiatáu i ystod ehangach o weithwyr proffesiynol drin cleifion
- Sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael triniaeth lle bo angen.

### **Ffeithiau allweddol**

- Yn 2022 nid oedd 93% o bractisau deintyddol yng Nghymru yn derbyn cleifion GIG newydd, ac nid oedd 88% yn derbyn plant fel cleifion newydd.
- Mae nifer y deintyddion yn y DU gyda'r isaf o blith gwledydd yr OECD, ac mae Cymru ar ben isaf ffigurau'r DU.
- Mae nifer y deintyddion yng Nghymru yn parhau i ostwng, ac mae tua 20% o ddeintyddion yn agos at oedran ymddeol.
- Collwyd dwy filiwn o apwyntiadau yn ystod pandemig Covid, gan achosi ôl-groniad enfawr o achosion.
- Deellir bod dros 15,000 o bobl yn disgwyl am apwyntiadau ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn unig. Ym Mhowys mae dros 800 o blant yn disgwyl am driniaeth.
- Yn 2015 dangosodd ymchwil fod dannedd traean o blant pump oed eisoes yn pydru.

- Pydredd dannedd yw'r rheswm unigol mwyaf o hyd am lawdriniaethau ar blant o dan anesthetig cyffredinol – dros 7000 o lawdriniaethau yn 2018

### Ein cynigion

Cynigir strategaeth pum pwynt ar gyfer dyfodol deintyddiaeth yng Nghymru:

- Rhoi terfyn ar ddeintyddiaeth ddwy haen yng Nghymru gyda thargedau clir, heriol a blaengar ar gyfer mynediad i ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru, gyda chyllid digonol;
- Ymagwedd iechyd cyhoeddus o'r newydd at ofal y geg;
- Dod â deintyddiaeth at y bobl
- Gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau proffesiynol ym maes deintyddiaeth y GIG, a sicrhau bod y sgiliau hynny'n cael eu gwobrwyo'n briodol;
- Ffocws ar ofal y geg i blant.

Rydym wedi nodi cyfres o gamau gweithredu er mwyn helpu i gyflawni hyn, gan ddefnyddio tystiolaeth gan ymarferwyr ledled y wlad.

### **Rhoi terfyn ar ddeintyddiaeth ddwy haen yng Nghymru drwy:**

- Osod targedau i'r Byrddau Iechyd o ran nifer yr apwyntiadau a'r amser aros ar eu cyfer, gan eu grymuso i ddefnyddio staff cyflogedig i gyrraedd y targedau hynny yn ogystal ag ymrwymo i gytundebau â darparwyr yn y sector preifat
- Sicrhau bod lefelau cyllid ar gyfer deintyddiaeth y GIG yn gyson â'r lefelau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Datrys y materion sy'n weddill yn gysylltiedig â chontractau, fel bod gan bractisau deintyddol fandad clir a chymhellion clir i ddarparu gofal y GIG, gan roi'r sicrwydd sydd ei angen wrth gynllunio deintyddiaeth am y tymor hir, a sicrhau gwerth gorau am arian i drethdalwyr ar yr un pryd. Credwn yn yr egwyddor y dylid canolbwyntio'n glir ar ganlyniadau yn rhan o broses y contract, ac y dylai targedau gynnwys meini prawf a metrigau clir ar gyfer llwyddiant.

- Sefydlu system rhestrau aros genedlaethol ac iddi adnoddau priodol, a gweithio gyda byrddau iechyd i sicrhau bod y broses o gael apwyntiad yn fwy effeithlon, a bod llai o apwyntiadau'n cael eu colli.

### **Gweithredu ymagwedd iechyd cyhoeddus o'r newydd at ofal y geg drwy:**

- Ehangu'r Cynllun Gwên i gyrraedd plant hŷn, ac ystod ehangach o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol
- Cydnabod y cysylltiad rhwng iechyd gwael yn y geg ac amddifadedd, a manteisio i'r eithaf ar synergeddau â mentrau iechyd cyhoeddus eraill lle bo modd.
- Adeiladu ar lwyddiant Gwên am Byth, i sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sy'n gweithio gyda phobl hŷn.

### **Dod â deintyddiaeth at y bobl drwy:**

- Archwilio ffyrdd o integreiddio deintyddiaeth yn nes i wasanaethau gofal sylfaenol eraill, o bosib drwy ddarparu rhai gwasanaethau gofal deintyddol sylfaenol, fel brysbennu a dechrau cyrsiau triniaeth deintyddol, mewn meddygfeydd teulu.
- Galluogi byrddau iechyd i ddefnyddio cynlluniau fel deintyddiaeth symudol i wella mynediad at wasanaethau deintyddol mewn ardaloedd gwledig

### **Diwygio'r dull o ddarparu deintyddiaeth y GIG drwy:**

- Sicrhau y gall therapyddion deintyddol chwarae mwy o ran mewn gofal sylfaenol, yn enwedig drwy eu galluogi i gychwyn cyrsiau triniaethau'r GIG a thrwy ddatrys yr ansicrwydd ynghylch eu pwerau presennol i gychwyn gofal fel mater o frys.
- Diogelu a datblygu'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, a sicrhau y gall gyflawni ei brif rôl o ran darparu gofal i rai ag anghenion neilltuol, heb iddo gael eu hystyried fel gwasanaeth dros dro cyn derbyn gwasanaethau eraill.

### **Canolbwyntio ar ofal y geg i blant drwy:**

- Ehangu argaeledd cynlluniau a chwmpas y cynlluniau hynny, fel Cynllun Gwên, er mwyn cyrraedd plant hŷn yn ogystal â sylfaen gymdeithasol ehangach.
- Gosod targedau i leihau nifer y plant sy'n cael tynnu eu dannedd o dan anesthetig cyffredinol.

## **Yr Her**

Mae'n bwysig cadw'r geg yn iach, ac nid yw derbyn gofal deintyddol y GIG erioed wedi bod mor anodd. Er bod y gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd cael sylw ac adnoddau o gymharu â chlefydau marwol fel clefyd y galon neu ganser, mae pydredd dannedd a chlefydau'r geg yn cael effaith ddifrifol ar lesiant pobl; mae'n achosi poen a thrallod, yn tarfu ar addysg ac yn achosi i bobl golli diwrnodiau gwaith.

Er hynny, mewn gormod o gymunedau, mae gwasanaeth deintyddol y GIG bron yn amhosib i'w dderbyn.

Mewn ymchwil a gyhoeddwyd gan y BBC ym mis Awst 2022, nid oedd 93% o bractisau deintyddol yng Nghymru yn derbyn oedolion fel cleifion newydd y GIG, ac nid oedd 88% yn derbyn plant fel cleifion newydd. Y ffigurau hynny yw'r gwaethaf o blith holl wledydd y DU, lle mae nifer y deintyddion eisoes yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD.

Ni wyddys yn union faint o bobl sy'n aros am apwyntiadau'r GIG gan nad yw'r wybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog, ond mae'n debygol bod llawer o filoedd yn y sefyllfa honno. Ac mae cael gofal deintyddol lleol yn brydlon o bwys gwirioneddol i bobl.

Mae'r problemau yn Neintyddiaeth y GIG yng Nghymru yn perthyn i dri phrif gategori:

- 1) y problemau hirdymor sydd wedi bod yn cronni ers blynyddoedd;
- 2) effaith pandemig Covid;
- 3) a'r problemau sy'n codi wrth ymdopi ag ôl-effeithiau pandemig Covid, pan gollwyd bron i ddwy filiwn o apwyntiadau, ac nad oedd ond gofal brys ar gael.

Gan hynny, mae'n rhaid i strategaeth ar gyfer deintyddiaeth y GIG fynd i'r afael â dwy broblem, sy'n wahanol ond â chysylltiadau agos rhyngddynt: ymdrin ag ôl-ffeithiau'r pandemig a mynd i'r afael â'r problemau hirdymor â gwreiddiau dwfn sy'n effeithio ar ddeintyddiaeth yng Nghymru.

### Deintyddiaeth y GIG: y cefndir o ran polisi

Dyhead craidd Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod triniaeth ddeintyddol y GIG ar gael i bawb sydd ei heisiau.

Nodir ei fframwaith o ran polisi yn *Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg i Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, a gyhoeddwyd yn 2018<sup>1</sup>. Mae'r ddogfen honno'n gosod nifer o amcanion polisi, a hefyd yn gosod iechyd y geg yng nghyd-destun ehangach gwella canlyniadau iechyd mewn gwlad a chanddi gryn hanes o broblemau iechyd cyhoeddus endemig.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r amcanion hynny, a'r weledigaeth sy'n sail iddynt. Fodd bynnag, rydym ni'n dadlau bod darpariaeth ddeintyddol y GIG yng Nghymru yn brin ar hyn o bryd, a bod angen meddwl yn arloesol a gwneud llawer o waith i'w chodi i lefel dderbyniol.

### Y darlun tymor hir

Yn gyffredinol, mae iechyd deintyddol wedi gwella yn y tymor hir, ar draws yr holl grwpiau cymdeithasol. Ond mae anghydraddoldebau difrifol wedi parhau. Mae iechyd gwael yn y geg a phydredd dannedd yn bethau y gellir eu hosgoi'n llwyr, ond ceir cydberthynas rhwng yr achosion o hynny ac amddifadedd economaidd a chymdeithasol, a phroblemau iechyd cyhoeddus eraill.

Roedd arolwg 2015 yn awgrymu bod traean o blant 5 oed eisoes yn dioddef pydredd dannedd. Tynnu dannedd hefyd yw'r prif reswm unigol o hyd am lawdriniaethau o dan anesthetig cyffredinol ymhlith plant - dros 7000 o driniaethau yn 2018

Mae mentrau iechyd cyhoeddus - fel rhaglen lwyddiannus Cynllun Gwên, a anelir at blant cyn-ysgol ac oed cynradd mewn cymunedau amddifadus - wedi cael cryn effaith. Erys yr ystadegau'n llwm er hynny.

Un o ganlyniadau system lle darperir gofal y GIG i raddau helaeth gan bractisau annibynnol ar gontract gyda'r byrddau iechyd - yn hytrach na darpariaeth uniongyrchol gan y Byrddau Iechyd - yw ei bod hi'n anodd cael data am restrau aros, a ddelir gan bractisau deintyddol unigol - ac am gyfanswm y triniaethau.

Hyd yn oed cyn y pandemig, mae'r data'n dangos bod nifer yr ymarferwyr deintyddol fesul pen yn y DU yn isel yn ôl safonau rhyngwladol, gyda Chymru ymhlith y rhai â'r lleiaf o ddarpariaeth yn y DU.

Roedd gwariant ar ddeintyddiaeth cyn y pandemig wedi bod yn is nag yn rhannau eraill o'r DU - gyda gwariant o £47 fesul pen o'r boblogaeth cyn y pandemig - o gymharu â £55 yn yr Alban a £56 yng Ngogledd Iwerddon.

Mae nifer yr ymarferwyr deintyddol yn gostwng hefyd. Cyn y pandemig, yn 2020-1 yr oedd 1389 o bractisau deintyddol - gostyngid o fwy na 5% mewn un flwyddyn. Mae hyd at 20% o'r deintyddion hynny'n agos at oedran ymddeol.

Gyda galw parhaus am ofal deintyddol preifat, mae llawer o ddeintyddion yn lleihau eu hymrwymiad i waith y GIG neu'n rhoi'r gorau iddo'n llwyr gan ffafrio ymarfer preifat; mae cynrychiolwyr deintyddion wedi awgrymu bod eu gwaith preifat yn aml yn cymorthdalw gwaith y GIG. Ac mewn gwlad fel sydd gennym ni, lle mae llawer o bobl yn byw mewn trefi llai neu ardaloedd gwledig, gall colli un practis GIG gael effaith sylweddol ar gymunedau.

Darperir gofal deintyddol gan ystod o weithwyr proffesiynol, yn ogystal â deintyddion, gan gynnwys therapyddion a nyrsys deintyddol. Maent yn aml wedi'u cyflogi mewn practisau

deintyddol drwy drefniant llawrydd; mae therapydd deintyddol yn weithiwr proffesiynol tra hyfforddedig a all gyflawni gwaith tebyg i waith deintydd, ond nad yw'n gallu cychwyn cwrs o driniaethau GIG.

Er nad yw'n ateb problemau yn y tymor byr, credwn y gallai gwell defnydd o sgiliau gweithwyr proffesiynol eraill wella mynediad at wasanaethau'r GIG i raddau sylweddol, yn enwedig lle bo modd cydleoli eu gwaith â mathau eraill o ofal iechyd sylfaenol, neu ei integreiddio mewn rhyw ffordd arall.

### Effaith pandemig Covid

Cafodd y problemau hirdymor hyn yn gysylltiedig â deintyddiaeth y GIG eu gwaethygu gan bandemig Covid, pan nad oedd ond modd cael gofal brys - wedi'i ddarparu gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDCym), sy'n darparu gofal i rai ag anghenion ychwanegol. Bu gostyngiad o fwy na 70 y cant yn nifer y triniaethau taledig i oedolion, a thros 80 y cant yn y triniaethau i blant. Tybir bod tua dwy filiwn o apwyntiadau wedi'u colli.

Yn anochel arweiniodd hyn at ôl-groniadau o achosion ac arosiadau hir am driniaeth. Gan fod Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal brys roedd amseroedd aros eu cleifion hyd yn oed yn hirach.

Ar ben hynny, nid oedd modd cynnal mentrau iechyd cyhoeddus hanfodol fel Cynllun Gwên, gan olygu bod cohort o blant na fyddent yn derbyn cymorth yn cael eu colli - gyda chanlyniadau hirdymor posibl wrth i blant a fyddai fel arall wedi mabwysiadu arferion da o ran gofal y geg.

Gadawodd Covid felly ôl-groniad enfawr o apwyntiadau a phoblogaeth y byddai ei hiechyd deintyddol cyffredinol bron yn bendant wedi dirywio.

### Ôl-effeithiau Covid

Prif effaith pandemig Covid oedd gadael ôl-groniadau enfawr o achosion. Mae rhai byrddau iechyd wedi dechrau llunio eu rhestrau aros eu hunain o ganlyniad i hyn, a lle bo'r wybodaeth



honno ar gael gwelir rhestrau aros yn ymestyn i'r miloedd. Yn ymchwiliad diweddar Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i ddeintyddiaeth, adroddwyd bod dros 15,000 o bobl ar restrau aros yn ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn unig.

Yn baradocsaidd ar yr un pryd, ceir problem ddifrifol yn gysylltiedig ag apwyntiadau sy'n cael eu methu - gyda hynny i gyfrif am bron i un o bob deg o apwyntiadau'r GIG. Mae anghysondebau yn y system rhestrau aros yn debygol o fod yn ffactor o bwys sy'n cyfrannu at hyn.

Mewn ymateb i'r sefyllfa, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau gan gynnwys cyllid ychwanegol o £2m fel cymhelliant i greu 120,000 o apwyntiadau i gleifion newydd, gan annog pobl i symud o wiriadau chwe-misol i rai blynyddol. Fodd bynnag, mae cynrychiolwyr deintyddion yn dadlau nad yw trefniadau contractio'n gweithio, nac ychwaith y cymhellion i gynnig apwyntiadau i gleifion newydd - y mae angen llawer mwy o ofal arnynt yn aml (a gofal mwy drud) na'r rhai sydd eisoes yn gweld eu deintydd yn rheolaidd. O ganlyniad i hyn, mae deintyddion yn cwtogi eu gwaith GIG, neu hyd yn oed y cefnu arno'n llwyr gan nad oes ganddynt y capasiti i gyrraedd targedau, a'r ansicrwydd ariannol yn sgil hynny.

#### Gwneud i ddeintyddiaeth y GIG weithio i Gymru

Ein man cychwyn yw y dylai pawb sydd eisiau cael mynediad i ddeintyddiaeth y GIG gael y mynediad hwnnw. I ddechrau, mae hyn yn golygu y dylid bod modd cael apwyntiad o fewn amser rhesymol ac yn rhesymol agos at adref; ac ar ôl dechrau cwrs o driniaeth, y dylid cwblhau'r cwrs hwnnw'n amserol.

Serch hynny, rydym hefyd am bennu gweledigaeth dymor hwy ar gyfer gofal y geg. Rydym am ddefnyddio'r ystod lawn o sgiliau a thalentau sydd eisoes gan bobl sy'n gweithio ym maes gofal y geg, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym eisoes, yn ogystal ag ystyried sut y gellir darparu deintyddiaeth orau ochr yn ochr â mathau eraill o ofal iechyd sylfaenol.

Yn wyneb gostyngiad yn nifer y deintyddion, mae arnom angen strategaeth sydd nid yn unig yn cymell ymarferwyr presennol i wneud mwy o waith y GIG, ond sydd, yn y tymor hwy, yn ystyried sut i integreiddio deintyddiaeth yn well i wasanaethau gofal sylfaenol presennol, gan rymuso gweithwyr proffesiynol hyfedr.

Mewn gwlad lle mae llawer o bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig, a lle mae trafndiaeth gyhoeddus yn aml yn ddrud ac yn brin, mae angen meddwl yn greadigol ynghylch sut i ddarparu gofal deintyddol sylfaenol yn y tymor hir.